# Dilynwch y rheolau isod er mwyn cael diwrnod diogel, pleserus a llawn hwyl

## Gweithgareddau Môr:

- Lansiwch eich bad yn yr ardal ddynodedig a chadwch at y cyfyngiad cyflymdra o **4 MILLTIR MÔR** oddi fewn yr harbwr (gweler y cynllun)
- Mae'n rhaid i bob bad gadw ei hôl-don i'r isafswm oddi fewn **50 medr** i unrhyw fad arall
- Cadwch yn glir o'r ardal waharddedig sydd wedi ei ddynodi gyda bwiau melyn, a chydymffurfiwch gyda holl is-ddeddfau sydd mewn grym - **gall eich bywyd a bywyd eraill ddibynnu arno** (gweler y cynllun).
- Mae'n rhaid i bob bad pŵer gael ei ddefnyddio'n gyfrifol a diogel - byddwch yn ystyriol o eraill
- Bydd 'Rheolau Rhyngwladol Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr' a 'Rheolau Ffederasiwn Sgio-Dŵr Prydeinig' yn cael eu dilyn bob amser
- Cyn mentro allan i'r môr gofynnwch am ragolygon y tywydd diweddaraf gan yr Harbwr Feistr a gwrandwch am fwletinau ar eich radio VHF
- Mae'n rhaid cofrestru eich bad pŵer gyda Chyngor Gwynedd cyn caniateir lansio ac mae'n ofynnol i chi arddangos yr hawlen cofrestru mewn man amlwg ar eich bad. Cysylltwch â'r Harbwr Feistr am fwy o wybodaeth.
- Mae ffi lansio yn daladwy - ymwelwch â swyddfa'r Harbwr Feistr cyn lansio
- **PERYGL** - Peidiwch â nofio yn yr ardal lansio ac ymysg yr angorfeydd yn yr harbwr
- Byddwch yn wyliadwrus o gerrynt cryf a chyflym
- Bydd yn rhaid i bob cwch pŵer sydd yn tynnu sgïwr dŵr neu degan /ddingis gwynt gael dau unigolyn ar ei bwrdd - gyrrwr ac arsyllwr
- Cymrwch ofal gydag offer enchwythedig oherwydd gall y cerrynt neu wynt alltraeth eich cario yn gyflym allan i'r môr
- Cadwch at gyflymdra diogel wrth agosáu at greaduriaid morol - **Peidiwch ag aflonyddu bywyd gwyllt yn fwriadol**

## Ar y Traeth:

- Parciwch gerbydau / ôl-gerbydau yn synhwyrol - peidiwch â chyfyngu mynediad i eraill a byddwch yn ystyriol o'r llanw
- Byddwch yn arbennig o wyliadwrus wrth yrru neu'n symud eich cerbyd ar y llithrfa neu yn y meysydd parcio - cadwch i'r cyfyngiad cyflymdra o **5 M.Y.A.** yn yr ardal lansio - fe fydd

cerbydau fydd yn torri'r rheolau yn cael eu gwahardd rhag lansio

- Dim cerbydau, beiciau modur na feiciau cwad ar y traeth na ar y twyni tywod - mae'n drosedd cosbadwy a dirwy hyd at £20,000
- Rhaid i blant gael eu goruchwylio gan oedolyn bob amser, yn enwedig ger y dŵr - gofynnwch i'r Harbwr Feistr neu ein Goruchwyliwr Traeth am dag / fand 'gwybodaeth plentyn'
- Os ydych yn gweld rhywun mewn trafferthion **ffoniwch 999** ar unwaith, a gofynnwch am Wylwyr y Glannau, yna cysylltwch â'r Harbwr Feistr neu'r Goruchwyliwr Traeth ar unwaith
- I gael triniaeth am fân anafiadau fe allwch gael cymorth gan yr Harbwr Feistr neu gan y Goruchwyliwr Traeth
- Ni chaniateir cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd Barcud Pŵer, Hwylfyrddio Tir neu Gwibgertiau ar y traeth rhwng **Mawrth a Thachwedd**
- Traeth graddfa serth – byddwch yn wyliadwrus o ddŵr dwfn a cherrynt cryf
- **PERYGL** - Peidiwch â dringo neu neidio oddi ar y lanfa
- Peidiwch â thyllu na thyrchu yn y twyni tywod - mae'n bosib iddynt gwympo yn sydyn ac yn annisgwyl
- Ewch a'ch sbwriel gartref neu defnyddiwch y biniau sbwriel neu'r biniau ailgylchu sydd ar y promenâd ac yn y maesydd parcio
- Peidiwch â cherdded eich ci yn yr ardal gwaharddiad cŵn, na'i adael yn rhydd i faeddu'r traeth (gweler y cynllun) - mae'n drosedd cosbadwy a dirwy hyd at £1000. Rhaid cadw cŵn ar dennyn pe bydd cyfarwyddyd
- Peidiwch ag amharu yn fwriadol ar fywyd gwyllt neu ar gynefinoedd morol
- Peidiwch ag ymddwyn mewn modd fydd yn amharu ar fwynhad neu ddiogelwch eraill ar y traeth

**MAE'N RHAID CYDYMFFURFIO Â'R RHEOLAU SYDD WEDI EU HAMLINELLU YN Y DAFLEN HON A CHYDFFURFIO GYDA CHYFARWYDDIADAU'R HARBWR FEISTR NEU SWYDDOG TRAETH ER DIOGELWCH PAWB**

## BYDDWCH YN DDIOGEL

Mae diogelwch yn yr harbwr ac ar y traeth yn bwysig iawn - byddwch yn ymwybodol o'r peryglon a byddwch yn ddiogel.

## RHIFAU FFÔN DEFNYDDIOL:

| | |
|---|---|
| Harbwr Feistr Aberdyfi | 01654 767626 / 07879 433148 |
| Swyddfa Forwrol: | 01758 704066 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | 03000 653000 |

**Mewn Argyfwng Ffoniwch 999**